

Y bwriad yw bod y nodyn cyfarwyddyd hwn yn cael ei ddarllen ochr yn ochr â thelerau ac amodau Cynllun Grant y Cyfamod Cymunedol a ffurflen gais Cynllun Grant y Cyfamod Cymunedol. Sylwch mai dim ond os yw ar y math diweddaraf o ffurflen gais y bydd y cais yn cael ei ystyried, a chofiwch dalu sylw manwl i nifer y geiriau.

#### **Adran 5**

- fewn Atodiad cefnogol, cynhwyswch wybodaeth am eich sefydliad gan gynnwys manylion eich cyfansoddiad, enwau eich cyfarwyddwyr, manylion rheolwr y prosiect, ac unrhyw bolisiâu perthnasol megis cyfle cyfartal, polisi amgylcheddol, cyllid, yr iaith Gymraeg, lechyd Meddwl, atebolrwydd i'r cyhoedd a diogelu.
- Rhowch fanylion am Reolwr y Prosiect a nodwch y sgiliau sydd ganddo/ganddi ar gyfer rheoli'r prosiect a'i roi ar waith.

#### **Adran 8**

- Rhowch fanylion penodol am anghenion y Personél o'r Lluoedd Arfog ac am nifer y bobl sydd angen y math hwn o gymorth
- Nodwch a fydd posibiliadau o ran helaethu eich prosiect os bydd yn llwyddiannus.

#### **Adran 9**

- Meddyliwch am gynaliadwyedd y prosiect.
- Rhowch fanylion am unrhyw bartneriaid neu sefydliadau eraill a fyddai'n fodlon cefnogi'r cais hwn a chyfrannu at gostau'r dyfodol. Cynhwyswch fanylion am unrhyw lythyrau cefnogi mewn atodiad.
- A aethpwyd i'r afael ag unrhyw faterion o ran dyblygu?

#### **Adran 10**

- Cynhwyswch strategaeth ymadael a rhagamcanion ar gyfer dyfodol y prosiect.

#### **Adran 11**

- Mae angen nodi manylion penodol yn yr adran hon. Beth yw'r canlyniadau? Mae angen nodi'r union niferoedd o'u cymharu â'r mesuriadau.
- Os ydych yn bwriadu rhoi hyfforddiant i unigolion, pa becyn hyfforddiant y byddwch yn ei ddefnyddio? Faint o sesiynau y byddwch yn eu cynnal?
- A oes unrhyw Ddangosyddion Ansawdd Bywyd neu fesurau meddal y gallech eu defnyddio i fesur llwyddiant?
- Rhowch fanylion am sut y byddwch yn gwerthuso'r prosiect.

#### **Adran 12**

- Rhowch fanylion am y cyllidwyr eraill y byddech yn cysylltu â hwy i sicrhau bod y prosiect yn gynaliadwy.

#### **Adran 13**

- Mae angen rhoi manylion penodol o'r costau a thystiolaeth ar eu cyfer megis biliau cyfleustodau.
- Cynhwyswch eich rhagamcanion ariannol, a manylion am sut y gellir talu'r costau hyn ar ôl i'r cyllid ddod i ben.
- Os ydych yn bwriadu cyflogi aelod o staff, darparwch y disgrifiad swydd.